INSHOU35

Rhoi cymorth i unigolion mewn sefyllfaoedd wedi'u hynysu i gynnal cysylltiadau cymdeithasol

Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio gydag unigolion mewn sefyllfaoedd wedi'u hynysu i'w helpu i gynnal cysylltiadau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n gaeth i'r tŷ, sy'n cael gofal hirdymor i ffwrdd o'u cartref, neu sydd â chyfyngiadau ar eu rhyddid a'u symudiad, er enghraifft unigolion sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Gall unigolion hefyd gael eu hynysu gan wahaniaethau cyfathrebu, er enghraifft drwy wahaniaethau iaith neu nam ar y synhwyrau neu drwy drallod emosiynol. Mae'r gweithiwr yn cynorthwyo'r unigolyn i gynnal cysylltiadau cymdeithasol drwy roi cefnogaeth a chymorth ymarferol a chael gwybodaeth a llenyddiaeth berthnasol.

Amlygir pwysigrwydd parchu gofynion a dymuniadau'r unigolyn ynghylch cynnal a datblygu cysylltiadau a diddordebau. Disgwylir i'r gweithiwr gydnabod a mynd i'r afael â thensiynau a allai godi rhwng hawliau a buddiannau'r unigolyn a chyfrifoldebau'r gweithiwr o fewn y cynllun gofal.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cynnig amser a chyfle i unigolion mewn sefyllfaoedd wedi'u hynysu i'w cynorthwyo i fynegi eu gofynion ar gyfer cynnal cysylltiadau cymdeithasol, a'u diddordeb ynddynt
2. rhoi cymorth i unigolion sy'n mynegi diddordeb mewn cysylltu neu gwrdd ag eraill
3. cynorthwyo unigolion i gynnal eu cysylltiadau, gan gyd-fynd â'u gofynion
4. rhoi cymorth sy'n berthnasol i'r unigolyn a'i ofynion, yn unol â'r cynllun gofal a'ch rôl
5. trosglwyddo gwybodaeth i gydweithwyr neu sefydliadau perthnasol pan fydd unigolion mewn perygl o roi'r gorau i gadw at eu cynllun gofal
6. cynorthwyo unigolion i gael gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau drostynt eu hunain a rheoli eu hunain
7. cadarnhau, pan fydd unigolyn yn gofyn am gymorth, ei fod yn gymorth o fath a lefel benodol, a'i fod yn cael ei ddarparu yn unol â'i gynllun gofal
8. cofnodi gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol
9. trafod ffynonellau gwybodaeth posibl gyda'r unigolyn a gwneud yn siŵr eu bod yn addas
10. rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r unigolyn ar yr adeg sy'n ofynnol ac mewn fformat perthnasol
11. annog unigolion i roi adborth ar y wybodaeth a gafwyd ac i wneud ceisiadau pellach

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. pam mae cysylltiadau cymdeithasol yn bwysig a phryd mae'n berthnasol i unigolion eu datblygu a'u cynnal
2. terfynau eich cyfrifoldebau eich hun a goblygiadau gweithredu y tu allan i'r terfynau hyn
3. y rhesymau pam y gellir defnyddio dulliau ac ymatebion gwahanol wrth gynorthwyo cleientiaid ag anawsterau cyfathrebu
4. y ffactorau a allai achosi i gleientiaid gael eu hynysu
5. sut mae anawsterau a gwahaniaethau cyfathrebu yn amrywio mewn gwahanol leoliadau ac ar wahanol gamau datblygu i unigolion mewn sefyllfaoedd wedi'u hynysu
6. y dulliau cynorthwyo unigolion i gynnal cysylltiadau cymdeithasol
7. pam y dylid annog unigolion i reoli eu hunain
8. pam mae'n rhaid ystyried dymuniadau unigolion hyd yn oed os nad ydynt am fanteisio ar y buddion a'r gwasanaethau sydd ar gael
9. hawliau'r unigolyn i gyfrinachedd ynghylch y wybodaeth y maent yn dewis ei chael a sut y dylid cynnal neu wella hyn yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol
10. y mathau perthnasol o gymorth i unigolion mewn sefyllfaoedd wedi'u hynysu
11. ffynonellau gwybodaeth am wahanol wasanaethau sydd ar gael
12. sut y gall anawsterau cyfathrebu a gwahaniaethau amrywio mewn gwahanol leoliadau ac ar wahanol gamau yn natblygiad unigolion
13. y dulliau cofnodi gwybodaeth yn unol â gofynion sefydliadol

INSHOU35

Rhoi cymorth i unigolion mewn sefyllfaoedd wedi'u hynysu i gynnal cysylltiadau cymdeithasol

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2019
Indicative Review Date	Ionawr 2024
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	SFJGB5
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr; Cynorthwy-ydd Tai; Cynorthwy-ydd Cymdogaeth; Gweinyddwr Tai; Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo; Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio); Trafodwr Gosod Llety; Cynorthwy-ydd Refeniw; Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfres/Set	Tai
Geiriau Allweddol	eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; unigolion; ynysu; sefyllfaoedd; cymorth; cynnal;